

Ymateb Llywodraeth Cymru i Ymgynghoriad Ofcom ar Ddyfodol Dosbarthu Teledu

Mae teledu yn chwarae rhan amhrisiadwy yng Nghymru, gan ddarparu llwyfan i ddiddanu, hysbysu a chysylltu unigolion a chymunedau â'r byd ehangach. Fel sy'n digwydd ledled y DU, mae'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys ac yn cysylltu â llwyfannau yn esblygu'n gyflym.

Mae dadansoddiad Ofcom ei hun, fel y nodir yn ei adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2023, yn nodi bod gwyllo teledu, yng Nghymru, yn parhau i ostwng (o 3 awr ac 8 munud y dydd yn 2021 i 2 awr a 45 munud y dydd yn 2022). Gwelir y gostyngiadau hyn ymhlith pob grŵp oedran. Gwylodd Cymru fwy o Fideos Tanysgrifio ar Alw/Fideos Hysbysebu ar Alw o holl wledydd y DU yn 2022. Ar gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru yn gwyllo 4 awr 43 munud o gynnwys fideo y dydd yn 2022, yr ail uchaf ymhlith gwledydd y DU. Yn gyffredinol, mae dinasyddion Cymru yn croesawu'r amgylchedd ar-lein, gydag adroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2023 Ofcom yn nodi bod oedolion yng Nghymru wedi treulio'r nifer mwyaf o amser ar-lein o'i gymharu â gwledydd eraill y DU (3 awr 47 munud, 6 munud yn fwy na chyfartaledd y DU).

Mae'n hanfodol, wrth i arferion teledu barhau i newid ledled y DU a'n bod yn cymryd camau i ymateb i hynny, fod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i sicrhau bod unrhyw fframwaith newydd yn diwallu anghenion pob cynulleidfa yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymgynghoriad hwn fel cam pwysig i asesu tueddiadau a datblygiadau yn y dyfodol i ddeall effaith y newidiadau hyn ar llwyfannau a chyffredinolrwydd teledu ar gyfer cynulleidfaoedd.

Pwysigrwydd darpariaeth gytbwys

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am ddull cytbwys o ymdrin â darpariaeth ac mae ein safbwynt yn parhau'n glir, bod yn rhaid diogelu gwasanaethau darlledu a'u bod yn parhau i fod ar gael yn gyffredinol nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn nodi'r ffigurau oedd yn Cyfryngau'r Genedl 2023 sy'n dangos gostyngiad yn y nifer sy'n gwyllo teledu. Rydym yn cydnabod yr angen i wasanaethau teledu ymateb i'r newid hwn a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar gynnwys drwy eu dull dewisol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at gynnwys hanfodol ac i gefnogi cynaliadwyedd parhaus y gwasanaethau eu hunain. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan ddarlledwyr i ddatblygu eu hunig bresenoldeb drwy wasanaethau fel ITVX a'r BBC iPlayer. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith mai darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yw'r darlledwyr sy'n cael eu gwyllo fwyaf yng Nghymru o hyd ac maent yn parhau i gael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y cyhoedd (roedd gwylwyr yng Nghymru yn ail ar gyfartaledd o ran nifer oedd yn gwyllo teledu a ddarlledir o wledydd y DU yn 2022). Mae Llywodraeth Cymru yn cael gohebiaeth gan randdeiliaid yn rheolaidd sy'n pwysleisio'r angen parhaus am gyffredinolrwydd a phwysigrwydd cynnal dulliau darlledu traddodiadol wrth i'r ffordd y caiff teledu ei ddosbarthu newid. Mae'r rhain hefyd yn tynnu sylw at effaith anghymesur posibl unrhyw darfu ar fynediad drwy sianeli mwy traddodiadol ar bobl fwyaf bregus ein cymdeithas, gan nodi proffil demograffig deiliaid tai sy'n defnyddio teledu daearol digidol (DTT) yn unig. Byddai ffactorau, gan gynnwys cost, diffyg cysylltedd a llythrennedd digidol i gyd yn chwarae

rhan wrth osod cyfyngiadau ar y gallu i gyrchu cynnwys darlledu pe bai ar gael yn ddigidol yn unig, sefyllfa a fyddai'n arwain at lawer o bobl ledled y wlad yn profi allgáu cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r *adroddiad 'Safeguarding Universality'*, a gyhoeddwyd gan Silver Voices, aelod o ymgyrch Broadcast 2040+, yn nodi bod 83% o'r ymatebwyr yng Nghymru yn credu y dylai'r gyfraith ddiogelu mynediad cyffredinol at gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, mae 67% yn cytuno y dylai sicrhau bod cynnwys yn hygyrch i bawb fod yn brif flaenoriaeth i'r llywodraeth ac ni fyddai 60% am i'r gost o orfod prynu offer newydd fel setiau teledu clyfar newydd neu seinwyr a setiau radio clyfar, os nad oedd teledu DTT ar gael.

Rydym yn cydnabod bod heriau ariannol sylweddol yn wynebu llwyfannau a gwasanaethau teledu, gan gynnwys darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus, wrth i'r ddarpariaeth esblygu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar draws ystod o sianeli. Mae chwyddiant a chynnydd mewn costau byw hefyd wedi gwaethygu'r heriau hynny. Mae'n hanfodol bod model cyllido diogel ac addas i'r diben sy'n diogelu gwasanaethau hanfodol ac yn darparu'r cyllid cynaliadwy sy'n caniatáu i ddarlledwyr gyflawni eu dibenion a'u hamcanion cyhoeddus a chystadlu â llwyfannau byd-eang.

Rydym yn nodi'r risg y gallai marchnad fwyfwy cymhleth a thoredig effeithio ar allu cynulleidfaoedd i ddarganfod cynnwys. Caiff hyn ei amlygu yn adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddarlledu 'Dyfodol Newydd ar gyfer Darlledu a Chyfathrebu yng Nghymru', a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023, sy'n nodi 'Mewn amgylchedd cyfryngau digidol byd-eang ac aml-lwyfan cydgyfeiriol, mae wedi dod yn fwyfwy heriol i sicrhau gwelededd a'r gallu i ddod o hyd i gynnwys sy'n gysylltiedig â Chymru, gan gynnwys cynnwys yn y Gymraeg. Gall technoleg ac algorithmau seiliedig ar ardal ddaearyddol wneud y cynnwys hwn yn fwy – neu'n llai – hygyrch i bobl sy'n byw yng Nghymru'. Yn fras, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cyflwyno Bil y Cyfryngau yn y bedwaredd sesiwn a'i fesurau i sicrhau bod cynnwys gwasanaethau cyhoeddus yn amlwg a bod cynulleidfaoedd yn gallu darganfod y cynnwys hwnnw ar lwyfannau ar-lein. Heb os, byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ddarlledwyr a chynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau darlledu yn cael eu diogelu ac yn parhau i fod ar gael yn fyd-eang nawr ac yn y dyfodol, ar draws yr ystod o sianeli a ddefnyddir gan gynulleidfaoedd i gael mynediad at raglenni, wrth i'r fframwaith rheoleiddio gael ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn arferion defnyddio cynnwys. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymru yn gallu darganfod cynnwys Cymreig beth bynnag fo'r sianel a ddefnyddir i gael mynediad at y cynnwys hwnnw. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid, gan gynnwys Ofcom, yn hyn o beth.

Seilwaith ategol

Dros y degawd diwethaf mae defnyddio band eang ac ymyriadau a ariennir yn gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a'r DU wedi gwella mynediad llawer at fand eang cyflym a dibynadwy i gartrefi a busnesau ledled Cymru. Mae band eang cyflym iawn (o leiaf 30Mbps) bellach ar gael i 96 y cant o eiddo yng Nghymru (diweddiariad haf 2023 Cysylltu'r Gwledydd Ofcom). Canfu canlyniadau'r Adolygiad diweddaraf o'r Farchnad Agored a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru nad oedd gan oddeutu 84,000 o eiddo yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym iawn neu nad oeddent yn rhan o unrhyw gynlluniau sector masnachol neu gyhoeddus i fynd i'r afael â hynny yn

ystod y tair blynedd nesaf. Mae cysylltedd band eang o leiaf 10Mbps ar gael i 98% o eiddo (diweddariad haf 2023 Cysylltu'r Gwledydd Ofcom).

Mae nifer o fentrau naill ai ar waith neu wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â eiddo heb fynediad at wasanaeth band eang y gellir ei ddefnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys grant Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru, Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU ac ymyriadau posibl yn y dyfodol. Er bod y datganiad yn yr ymgynghoriad y bydd darpariaeth band eang yn dod yn llai o rwystr yn wir, nid yw'n sicr y bydd mynediad i 100% o eiddo. Mae'r rhai sydd hebdo yn debygol o fod mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell iawn, a chael eu cynrychioli'n anghymesur yng Nghymru. Bydd angen ystyried sut y darperir gwasanaeth i'r eiddo hynny sy'n weddill.

Bydd yna gartrefi sydd angen dibynnu ar naill ai technolegau symudol neu loeren am gysylltedd band eang. Gall pecynnau fod yn ddarostyngedig i gapiau data nad ydynt efallai yn ddigonol i ganiatáu ar gyfer teledu ar y rhyngwrwyd a hynny heb orfod talu costau uwch. Bydd angen ystyried sut y gall cartrefi barhau i fwynhau rhaglenni teledu heb orfod talu costau data sylweddol.

Cynhwysiant digidol

Mae teledu yn rhan bwysig o'n bywydau bob dydd ac yn fwy felly i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol nad oes ganddynt y dewis o gynnwys teledu arall o bosibl fel ffrydio neu wasanaethau tanysgrifio. Mae teledu llinol yn parhau i chwarae rhan sylweddol bwysig ochr yn ochr â darlledu digidol ac ar-alw, yn enwedig i'r henoed a grwpiau bregus eraill sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 yn dangos bod 7% o oedolion yng Nghymru (amcangyfrif o 170,000 o bobl) wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae'r ffigwr hwn yn uwch ymhlith pobl 75 oed a throsgodd – mae 32% (amcangyfrif o 95,000) wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae hyn yn cyfateb i'r 34% o bobl 75 oed a throsgodd sy'n defnyddio teledu daearol digidol (DTT) yn unig. Ymhlith y grwpiau bregus eraill a allai fod wedi'u hallgáu'n ddigidol mae preswylwyr tai cymdeithasol (12%) a phobl â salwch tymor hir cyfyngol (10%). Mae ymgynghoriad Ofcom yn galw am ymyrraeth i sicrhau bod y bobl hynny sydd mewn sefyllfa fwy bregus yn cael eu cefnogi yn achos symudiad wedi'i reoli oddi wrth DTT. Mae'n bwysig cydnabod y byddai angen ymateb cydlynol rhwng y DU a llywodraethau datganoledig ar unrhyw ymyrraeth o'r fath. Ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth y DU strategaeth cynhwysiant digidol ac mae gan weinyddiaethau datganoledig ddulliau a strategaethau gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (MDLS) sy'n ystyried y math o ddyfeisiau, data band eang/symudol a sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen i gael eu cynnwys yn ddigidol yn y Gymru fodern. Mae'r MDLS yn fan cychwyn sylfaenol ond mae angen ystyried yr heriau penodol y mae gwahanol aelwydydd yn eu hwynebu wrth gyflawni'r MDLS mewn ymyriadau. Mae'r gwaith wedi nodi sawl rhwystr rhag cyflawni MDLS gan gynnwys fforddiadwyedd ac argaeledd ac ansawdd seilwaith i gefnogi mynediad. [Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: safbwyntiau dinasyddion a rhanddeiliaid | LLYW.CYMRU](#)

Y camau nesaf

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn parhau i drafod y mater pwysig hwn gyda rhanddeiliaid Cymru. Byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn hapus i drafod y

pwyntiau a nodir yn yr ymateb hwn gydag Ofcom. Byddem hefyd yn awyddus i archwilio unrhyw gyfleoedd i adeiladu ar yr ymchwil a wnaed gan Ofcom i gefnogi dadansoddiad mwy penodol o ddata perthnasol ar lefel gwlad, gan gynnwys drwy ddadansoddiad mwy cyfannol a chyfun o ymchwil sy'n gysylltiedig â'r defnydd o deledu a'r chyfryngau, arferion ar-lein a chysylltedd.